# PWYLLGOR IAITH, 17.01.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gweno Glyn (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alwyn Gruffydd, Eric M.Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi R.Jones (Pennaeth Addysg), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:** Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg) ynghyd â Dyfan Sion (Uwch Swyddog Polisi a Chydymffurfiaeth) a Hunydd Andrews (Swyddog Polisi a Chydymffurfiaeth).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Selwyn Griffiths, Dyfrig Jones a Gruffydd Williams.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2012 fel rhai cywir.

## 3. CYFLWYNIAD I WAITH COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Croesawyd Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad i'r aelodau ar waith y Comisiynydd.

Yn ystod ei chyflwyniad, nododd y Comisiynydd:-

- y crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Bod y mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, a hynny am y tro cyntaf erioed, ond nad oedd yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru.
- Y daeth pwerau statudol y Comisiynydd i rym ar 1 Ebrill, 2012.
- Bod y Comisiynydd yn annibynnol.
- Y caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg, hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yna manylodd ymhellach ar swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd, gan gynnwys y pŵer i gynnal ymholiadau ac i ymchwilio i gwynion. Ymhelaethodd ar y safonau y bydd disgwyl i'r 105 o sefydliadau neu gwmnïau sy'n dod o dan y Mesur Iaith eu cyrraedd ynghyd â'r bwriad i sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg ar gyfer derbyn apeliadau gan sefydliadau.

Nododd ymhellach fod y Comisiynydd yn derbyn tua 50-100 o gwynion bob mis, yn deillio o ofal iechyd a chyrff y Goron yn bennaf, a'i bod eisoes wedi sefydlu ymholiad i ofal iechyd sylfaenol.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Hoeliwyd sylw'n benodol ar y materion a ganlyn:-

- Yr angen i ddwyn pwysau ar y Llywodraeth o bob cyfeiriad i adolygu TAN 20 cyn gynted â phosib' gan nad oedd modd rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg o fewn y broses gynllunio ar hyn o bryd.
- Yr angen i ledaenu twf, yn hytrach na chanoli twf, er mwyn cefnogi cymunedau mewn ardaloedd megis Gwynedd.
- Pryder bod grymoedd y Comisiynydd wedi'u cyfyngu i faterion sydd wedi'u datganoli. Mewn ymateb, nododd y Comisiynydd fod Deddf Iaith 1993 yn parhau mewn grym a bod Mesur y Gymraeg yn datgan bod modd gosod safonau ar yr holl gyrff sy'n weithredol yng Nghymru gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.
- Pwysigrwydd dylanwadu ar y 3ydd Sector.
- Y pwyslais a roddir ar urddas mewn gofal a'r ffaith mai mater o urddas yw bod pobl yn derbyn gofal trwy gyfrwng eu dewis iaith.
- Pwysigrwydd cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a bod camau gweithredol yn digwydd o fewn y Llywodraeth i yrru hyn ymlaen.
- Yr angen am ddatrysiad ieithyddol o'r tueddiadau i ranbartholi.
- Dymuniad i weld asesiad ieithyddol yn rhan o unrhyw newid yn y gwasanaeth gofal.

**PENDERFYNWYD dwyn pwysau ar y Llywodraeth o bob cyfeiriad i adolygu TAN 20 cyn gynted â phosib', drwy osod y mater ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a gofyn am gefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a holl gynghorau cymuned y sir i hyn.**

Diolchwyd i'r Comisiynydd am ei chyflwyniad manwl a diddorol.

Yna cyhoeddodd y Cadeirydd y cynhelid Cynhadledd Hunaniaith ar Ddyfodol Cymunedau Cymraeg yn Galeri, Caernarfon ar 22 Mawrth.

## 4. CYFRIFIAD 2011: CANLYNIADAU CYNTAF AR YR IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn nodi y cyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf o Gyfrifiad 2011 ar yr iaith Gymraeg ar 11 Rhagfyr, 2012, ac yn manylu ar rai o'r canlyniadau allweddol i Gymru ac i Wynedd. Disgwylid cyhoeddi'r data ieithyddol ar lefel ward ar 30 Ionawr.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Nad oedd y ffigurau'n syndod o gwbl gan fod y duedd yn gwbl amlwg. Os na lwyddir i fynd i'r afael â hyn rŵan, 'rydym yn sôn am ddifodiant yr iaith. Mae angen chwyldro meddyliol a diwylliant gwahanol, ond ofnir nad yw'r awydd na'r ewyllys ynom i wneud hynny.
- Bod angen dwyn perswâd ar weddill y cynghorwyr, e.e. yn eu rôl fel llywodraethwyr ysgolion wrth wneud penodiadau.
- Bod angen cyflwyno'r Gymraeg i bobl ifanc fel norm a gwneud yr iaith yn atyniadol iddynt a bod perygl eu troi i ffwrdd wrth ddarogan gwaed.

- Bod yr iaith yn colli tir ers 100 – 150 o flynyddoedd ac oni fydd yna newid yng Nghaerdydd, mae'r difodiant ar y gorwel.
- Bod mewnfudo yn lladd y Gymraeg.
- Ei bod yn bwysig codi hyder y bobl ifanc hynny sy'n teimlo nad yw eu Cymraeg yn ddigon da.
- Yn sgil cyhoeddi'r data ieithyddol ar lefel ward ar 30 Ionawr, y dylid trefnu seminar ar gyfer yr holl gynghorwyr tua diwedd Chwefror i drafod canlyniadau'r Cyfrifiad fesul ward, i gyflwyno gwybodaeth am bolisïau sy'n effeithio ar yr iaith, i drafod rôl cynghorwyr fel arweinwyr iaith yn eu cymunedau ac i ystyried sut orau i ddylanwadu ar bolisïau'r dyfodol.
- Y dylid amseru'r seminar i fwydo i mewn i Gynllun Strategol newydd y Cyngor fel bod y cynigion yn cael eu gweithredu drwy'r Cynllun Strategol.
- Nad oedd dylanwad y Brifysgol ar y ffigurau hyn yn glir ar hyn o bryd, ond unwaith y ceid y canlyniadau'n llawn, byddai sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd, gyda, a heb, y myfyrwyr yn gliriach.
- Bod rôl y Comisiynydd fel eiriolwr yn allweddol hefyd o safbwynt atal y dirywiad yn y defnydd bob dydd o'r iaith a phwysleisiwyd pwysigrwydd marchnata'r iaith yn bositif.
- Bod angen addysgu pobl ifanc ynglŷn â hanes yr iaith Gymraeg.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Yn sgil cyhoeddi'r data ieithyddol ar lefel ward ar 30 Ionawr, y dylid trefnu seminar ar gyfer yr holl gynghorwyr tua diwedd Chwefror i drafod canlyniadau'r Cyfrifiad fesul ward, i gyflwyno gwybodaeth am bolisïau sy'n effeithio ar yr iaith, i drafod rôl cynghorwyr fel arweinwyr iaith yn eu cymunedau ac i ystyried sut orau i ddylanwadu ar bolisïau'r dyfodol, gan fwydo'r cynigion i mewn i Gynllun Strategol y Cyngor.**

**5. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Addysg yn gofyn i'r aelodau ystyried a derbyn cynnwys y drafft terfynol o'r cynllun.

Dosbarthwyd fersiwn ddiwygiedig o dudalen 10 o'r cynllun gan fod yna rai camgymeriadau yn y fersiwn a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen. Dosbarthwyd copïau hefyd o Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd.

Nododd y Pennaeth Addysg ei fwriad i gyflwyno'r fersiwn derfynol o'r Cynllun Strategol a'r Siarter Iaith i gyfarfod llawn o'r Cyngor er mwyn tynnu'r holl gynghorwyr i mewn i'r drafodaeth.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Bod gan gynghorwyr a llywodraethwyr ysgolion rôl bwysig o ran hyrwyddo'r cynllun.
- Y byddai'n ddymunol petai gan gyrff llywodraethol pob ysgol bencampwr y Gymraeg.
- Bod gan benaethiaid ysgolion rôl bwysig o safbwynt amlygu a gwerthu'r cynlluniau trochi a'r canolfannau i hwyrddyfodiaid i rieni di-gymraeg. Hefyd, mae llwyddiant y plant gyda'r Gymraeg yn ddull o werthu'r canolfannau hyn.
- Y dylid ymfalchïo yn narpariaeth y canolfannau iaith a gallai'r pwyllgor hwn dderbyn adroddiad ar gynnydd y plant sydd wedi bod drwy'r system yma.

- Y gallai fod yn anodd denu Cymry Cymraeg i helpu mewn cylchoedd meithrin, grwpiau Ti a Fi, grwpiau darllen mewn ysgolion cynradd, ayb, a bod rôl yma i gynghorwyr fel arweinyddion o fewn y gymuned o safbwynt sbarduno pobl i'r cyfeiriad cywir.
- Mynegwyd dymuniad i weld penodiad yn cael ei wneud i'r swydd Cydlynydd Siarter Iaith Gymraeg yr ysgolion cynradd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn cynnwys y drafft terfynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.**

**(b) Cyflwyno adroddiad cynnydd i'r pwyllgor hwn ar gynnydd y plant hynny sydd wedi bod drwy'r canolfannau iaith.**

**6. CWYNION IAITH**

Gan fod yr amser wedi prysuro yn ei flaen, ni chafwyd cyfle i drafod yr eitem hon a gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau ar yr adroddiad i sylw'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.10pm.